| Cyngor Sîr Ynys Môn | |
|---|---|
| Adrodd i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 10fed Medi 2025 |
| Pwnc: | Trosolwg o ganlyniadau'r broses Galw am Safleoedd |
| Deiliad portfolio: | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwaanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Lowri F. Williams (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio)<br><br>lowriwilliams3@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnaol i holl Aelodau Etholedig |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ganlyniadau'r broses Galw am Safleoedd diweddar, a gynhaliwyd fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd.

## 2.0 Penderfyniad sydd ei angen

2.1 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth yn unig.

## 3.0 Y Broses Galw am Safleoedd a Chyflwyniadau

3.1 Agorodd y Galwad am Safleoedd ar 12 Mai, 2025 am gyfnod cychwynnol o chew wythnos, gan ddod i ben ar 23 Mehefin 2025. Oherwydd lefel gymharol isel o gyflwyniadau yn ystod yr alwad cychwynnol hon, ymestynnwyd y cyfnod am chwe wythnos arall, gan gau ar 4 Awst 2025.

3.2 Derbyniwyd cyfanswm o 280 o gyflwyniadau safleoedd yn ystod y broses Galwad am Safleoedd, sy'n cwmpasu ystod eang o ddefnyddiau arfaethedig gan gynnwys safleoedd tai, cyflogaeth/manwerthu ac ynni adnewyddol. Roedd y dulliau cyflwyno fel a ganlyn:

- 85% drwy borth cyflwyno ar-lein y Cyngor;
- 10% drwy e-bost; a
- 5% drwy gyflwyniad papur.

3.3 Mae'r safleoedd wedi'u cyflwyno ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau posibl ond gyda'r mwyafrif ar gyfer tai. Mae sawl safle wedi'i gynnig ar gyfer llu o ddefnyddiau. Mae'r canlynol yn darparu dadansoddiad o'r defnyddiau a gynigir a nifer y safleoedd ym mhob categori:

- Preswyl – 88%;
- Cyflogaeth/manwerthu – 8%; and
- Ynni adnewyddol – 4%.

3.4 O'r safleoedd a gynigir at ddibenion preswyl, mae'r dadansoddiad canlynol yn rhoi arwydd o'r rhai sy'n cynnig datblygu 5 neu fwy o unedau:

- 5 uned a mwy – 79%;
- 50 uned a mwy – 11%; and
- 100 uned a mwy – 10%.

3.5 Mae'r Galwad am Safleoedd Bellach wedi cau'n ffurfiol. Bydd unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu storio mewn ffolder cyflwyniadau hwyr. Ni fydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu hystyried yn awtomatig fel rhan o'r broses o wneud cynlluniau. Fodd bynnag, os bydd diffyg safleoedd priodol yn dilyn y prosesau dilysu ac asesu, gellir ystyried safleoedd a gynhwysir yn y ffolder cyflwyniadau hwyr fel modd o wneud iawn am unrhyw ddiffyg.

3.6 Ar hyn o bryd, mae safleoedd a gyflwynwyd mewn pryd yn cael eu dilysu i sicrhau cyflawnrwydd a chydymffurfiaeth â gofynion cyflwyno. Bydd y Tîm Polisi Cynllunio'n gwirio bod bob cyflwyniad safle ymgeisiol:

- Yn cynnwys y ffurflen safonol, y cynllun lleoliad/map, ffiniau wedi'u plotio, arwynebedd a chyfeiriad y safle manylion perchnogaeth, y defnydd arfaethedig, manylion cyswllt y person/sefydliad sy'n gwneud y cyflwyniad; a hefyd
- Yn cydymffurfio gyda'r arweiniad yn y Nodiadau Arweiniad Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

Mae dilysu'n wiriad gweinyddol i gadarnhau bod yr holl safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd wedi'u cwblhau a'u cefnogi'n briodol, gan sicrhau cywirdeb a chysondeb.

3.7 Ochr yn ochr â'r broses ddilysu a gynhelir gan y Tîm Polisi Cynllunio dros yr wythnosau nesaf, mae'r safleoedd yn destun Hidlo Cychwynnol y Safle. Mae'r cam hwn o'r asesiad yn cymhwyso meini prawf cyson i benderfynu a ddylai safleoedd fynd ymlaen i'r cam *Asesiad Safle Manwl* neu gael eu categoreiddio fel *Safleoedd wedi'u Hidlo Allan*. Bydd yr hidlo cychwynnol hwn yn tynnu allan y safleoedd sydd:

- Wedi'u cyflwyno ar gyfer pwrpas preswyl sy'n disgyn o dan y trothwy isafswm o 0.2ha (neu 5 uned).
- Dim o fewn, cyfagos, neu, adjacent, neu sy'n gysylltiedig yn agos ag anheddle presennol.

- Wedi'u lleoli o fewn parth llifogydd ar y map cyfyngiadau.
- Located within the flood zones identified on the constraints map.

Mae'r safloedd sy'n amlwg nad ydynt yn bodloni'r gofynion sylfaenol a nodir uchod, yn cael eu categoreiddio fel *Safleoedd Wedi'u Hidlo Allan* ac ni fyddant yn symud ymlaen i'r cam *Asesiad Safle Manwl*.

3.8 Yn gyffredinol, mae nifer ac amrywiaeth y safleoedd a gyflwynwyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r CDLl o safbwynt dyrannu tir ar gyfer defnyddiau penodol.

## 4.0 Camau nesaf

4.1 Mae'r ymarfer Galwad am Safleoedd wedi cynhyrchu nifer sylweddol o gwyflwyniadau. Bydd y camau nesaf o ddilysu ac asesu'n sicrhau mai dim ond y safleoedd hynny sy'n briodol, cyflawnadwy, ac yn unol ag amcanion Strategol y CDLl fydd yn cael eu symud ymlaen.

4.2 Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol drafft a chanlyniadau'r ymarfer hidlo cychwynnol yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2025 cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd y gofrestr hon yn darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl safleoedd a gyflwynir.

4.3 Ar ôl dilysu a hidlo cychwynnol y Safleoedd Ymgeisiol, cynhelir dadansoddiad bylchau i nodi unrhyw ddiffygion yn y gofrestr safleoedd sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn asesu os oes digon o dir priodol wedi'i adnabod i gyflwani amcanion Strategol y CDLl.

4.4 Ble bo bylchau wedi'u hadnabod, gall y Cyngor gymryd camau pellach, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliad wedi'u targedu, ailystyried sfleoedd wedi'u hidlo (yn amodol ar dystiolaeth newydd), neu alwadau ychwanegol am safleoedd i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Bydd y camau hyn yn sicrhau bod y Strategaeth a Fefrir yn gynhwysfawr ac yn gyflawnadwy.

## 5.0 Argymhellion

5.1 Bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad.